Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Briff Ymchwil

**Mehefin 2026**



Rhagor o wybodaeth:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl.

Mae’r Senedd fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o’r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Briff Ymchwil

**Mehefin 2026**

**Awdur:**
Andrew Minnis

Mae'r briff hwn yn crynhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n egluro sut mae'r Ddeddf yn gosod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau cyhoeddus drwy ddilyn nodau llesiant, dyletswyddau sydd ar gyrff cyhoeddus, a'r 'pum ffordd o weithio'.

Mae'n amlinellu mecanweithiau cyflawni allweddol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nodau llesiant, a dangosyddion cenedlaethol, ac yn tynnu sylw at rolau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol o ran goruchwylio.

**Rhagor o wybodaeth:**
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**1. Y Ddeddf ....... 7**

Y saith nod llesiant ....... 8

**2. Cyrff cyhoeddus ....... 9**

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio ....... 10

Amcanion llesiant ....... 11

**3. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ....... 13**

Cynlluniau llesiant lleol ....... 14

Asesiadau llesiant lleol ....... 15

**4. Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, ac Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol ....... 16**

Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol ....... 16

Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol ....... 16

**5. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ....... 17**

**6. Archwilydd Cyffredinol Cymru ....... 19**

# 1. Y Ddeddf

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015, a daeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, ac mae wedi'i chynllunio i sicrhau bod camau gweithredu yn diwallu anghenion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

> *[Y] broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

## Y saith nod llesiant

Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant ar gyfer Cymru:

| | |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatau i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cyrmu iachach** | Cymdeithas lie mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal a phosibl a lie deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u ha mgylch iada u cymdeithasol-economa idd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd a chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle maer Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefal fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

# 2. Cyrff cyhoeddus

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion er mwyn dangos sut y byddant yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y nodau llesiant. Mae'n ofynnol i'r cyrff wneud y cyfraniad gorau posibl i gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nodau a bennir ganddynt. Mae angen i gyrff cyhoeddus dalu'r gost o gyflawni gofynion y Ddeddf.

Ar hyn o bryd, mae yna 55 o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Ddeddf, yn dilyn ei hestyn i wyth arall yn 2024 a throsglwyddo'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyf. yn ôl i ofal Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2026. Y cyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf yw:

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau lleol;
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;
- Awdurdodau Tân ac Achub Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;

- Amgueddfa Genedlaethol Cymru;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Trafnidiaeth Cymru; a
- Cymwysterau Cymru.

Yn y dyfodol, gall deddfwriaeth arwain at fwy o gyrff yn dod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ac mae rhagor o gyrff eisoes yn aros i'w hychwanegu. Er enghraifft, o ganlyniad i Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 a Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 bydd Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru a Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn ddarostyngedig i'r Ddeddf unwaith y bydd y cyrff priodol wedi'u sefydlu.

Er na chânt eu dynodi fel 'cyrff cyhoeddus', mae'n ofynnol i unrhyw Gyngor Tref neu Gyngor Cymuned sydd ag incwm neu wariant sy'n fwy na £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y cyhoeddir y cynllun llesiant lleol (gweler adran 3), weithio tuag at weithredu'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei ardal.

## Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio

Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Enw'r rhain yw y 'pum ffordd o weithio':

- Yr hirdymor: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor;
- Atal: Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion;

- **Integreiddio:** Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;

- **Cydweithredu:** Ystyried sut y gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant;

- **Cynnwys:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Er mwyn bod o gymorth i gyrff cyhoeddus a chyrff eraill fel byrddau gwasanaethau cyhoeddus (gweler adran 3) i weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler adran 5) hefyd yn cynnig cymorth, gan gynnwys cynnig offer i helpu i ymgorffori'r Ddeddf.

## Amcanion llesiant

Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus bennu amcanion llesiant, ac fe'u hanogir i sicrhau bod cynllunio corfforaethol yn dod yn fecanwaith ar gyfer eu pennu.

Ar yr un pryd â chyhoeddi amcanion, rhaid i gorff cyhoeddus hefyd gyhoeddi datganiad llesiant. Rhaid i'r datganiad esbonio:

- pam mae'r corff cyhoeddus o'r farn y bydd ei amcanion llesiant yn cyfrannu at y nodau llesiant;

- pam mae'r corff cyhoeddus o'r farn bod ei amcanion llesiant wedi'u pennu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

- y camau i'w cymryd i fodloni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

- sut y bydd y corff cyhoeddus yn llywodraethu ei hun i gyflawni ei amcanion llesiant;

- sut y bydd y corff cyhoeddus yn parhau i adolygu'r camau y mae'n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant;

- sut y bydd y corff cyhoeddus yn sicrhau bod adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, yn cael eu dyrannu yn flynyddol at ddiben cymryd camau i gyflawni ei amcanion;

- pryd y mae'r corff cyhoeddus yn disgwyl cyflawni ei amcanion llesiant; ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall am yr amcanion.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hamcanion llesiant o fewn chwe mis i etholiad y Senedd (cyhoeddwyd y set gyntaf o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016, ac fe'u diweddarwyd wedi hynny mewn datganiad llesiant yn hydref 2017).

Yn wreiddiol, cyhoeddodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru ei hamcanion llesiant fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2021, ochr yn ochr â datganiad llesiant. Cyhoeddwyd diweddariad i'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n dangos cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt adolygu eu hamcanion a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau. Gallant adolygu ac addasu eu hamcanion ar unrhyw adeg.

Caiff adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar gynnydd tuag at ei hamcanion llesiant eu cyhoeddi ar ei gwefan.

# 3. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Disodlodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'u rhagflaenodd. Roedd y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn bartneriaethau anstatudol â'r nod o gynnig dull strategol o fynd i'r afael â materion trawsbynciol sy'n gofyn am ddull amlasiantaeth.

Caiff dau neu ragor o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno i uno os ydynt o'r farn y byddai'n eu cynorthwyo i gyrraedd y nodau llesiant, a chânt hefyd gytuno i gydweithio. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo dau neu ragor o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i uno neu gydweithio.

Rhaid i aelodau pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys:

- yr awdurdod lleol;
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ychwanegol at yr aelodau hyn, rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wahodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i gyfranogi yng ngweithgarwch y Bwrdd:

- Gweinidogion Cymru;
- y Prif Gwnstabl ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- y gwasanaeth prawf; ac
- o leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi nifer o 'bartneriaid eraill' – gan gynnwys cynghorau cymuned a chyrff cyhoeddus eraill. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

geisio cyngor gan y cyrff hyn, a'u cynnwys i'r graddau y mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

Caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wahodd unrhyw un arall sy'n arfer swyddogaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd, mae 13 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u sefydlu yng Nghymru. Mae'r Byrddau yn y 14 o ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn wedi dewis uno:

- Conwy a Sir Ddinbych;
- Ynys Môn a Gwynedd;
- Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg);
- Blaenau Gwent; Caerffili; Sir Fynwy; Casnewydd a Thorfaen (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent); a
- Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau gweithredol awdurdodau lleol sicrhau bod gan eu pwyllgorau trosolwg a chraffu y pŵer i adolygu a chraffu ar benderfyniadau a llywodraethiant y Byrddau, ac i wneud argymhellion arnynt. Nid yw'r Ddeddf yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â gwaith craffu ar Fyrddau sydd wedi'u huno, fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi'u sefydlu.

## Cynlluniau llesiant lleol

Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant (y ddyletswydd llesiant). Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i Fyrddau gyhoeddi cynllun llesiant lleol, sy'n nodi eu hamcanion a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad sy'n nodi, ymhlith materion eraill, yr wybodaeth a ganlyn:

- pam mae'r Bwrdd o'r farn y bydd ei amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal leol;
- sut y mae wedi ystyried yr asesiad o lesiant lleol wrth bennu ei amcanion a'r camau i'w cymryd;

- amserlen y Bwrdd ar gyfer cyflawni ei amcanion; a
- sut y bydd unrhyw gamau arfaethedig yn cael eu cymryd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid cyhoeddi cynlluniau o fewn blwyddyn ar ôl etholiadau llywodraeth leol fan bellaf. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion ymgynghori sy'n ymwneud â chynlluniau llesiant ac yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ofyn am gyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid i Fyrddau gyhoeddi'r cyngor hwn ochr yn ochr â'r cynllun a rhaid iddynt gyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun bob blwyddyn.

Caiff Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adolygu a diwygio ei amcanion a'i gynllun lleol ar unrhyw adeg, neu caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo iddo wneud hynny.

Rhaid i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned sy'n cyrraedd y trothwy incwm a/neu wariant, sef £200,000, gymryd pob cam rhesymol i gyfrannu tuag at gynllun llesiant y Bwrdd a llunio adroddiad arno'n flynyddol.

## Asesiadau llesiant lleol

I lywio'r cynllun llesiant, mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Rhaid cyhoeddi asesiadau llesiant o fewn blwyddyn fan bellaf cyn y disgwylir cyhoeddi cynlluniau llesiant.

Unwaith eto, mae'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion ymgynghori. Rhaid i Fyrddau hefyd ystyried ystod o asesiadau statudol eraill wrth baratoi asesiadau llesiant.

Cyhoeddodd Comisiynydd diwethaf Cenedlaethau'r Dyfodol grynodeb o'r hyn a ddarganfu wrth ymateb i asesiadau drafft o lesiant yn 2022.

# 4. Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, ac Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol

## Dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant. Rhaid iddynt hefyd bennu cerrig milltir, gan nodi beth ddylai'r dangosyddion ei ddangos ar hyd y daith.

Gosodwyd y 50 dangosydd cenedlaethol presennol ym mis Rhagfyr 2021, gyda'r 'don gyntaf' o gerrig milltir a gyhoeddwyd hefyd ym mis Rhagfyr 2021. Daeth 'ail don' yn 2022.

Mae’n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad llesiant blynyddol – 'Adroddiad Llesiant Cymru' sy’n nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nodau llesiant trwy gyfeirio at y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol.

## Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol yn ystod y deuddeg mis yn dilyn etholiad y Senedd. Rhaid iddo nodi'r tueddiadau tebygol yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn y dyfodol, ac unrhyw ddata cysylltiedig yr ystyrir eu bod yn briodol.

Rhaid i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ystyried Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol wrth lunio adroddiad cenedlaethau'r dyfodol (gweler isod), a rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyfeirio ato wrth baratoi eu hasesiad o lesiant lleol i’r graddau y mae’n berthnasol i'w ardal.

Mae dau adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn, y cyntaf yn 2017 a'r ail yn 2021.

# 5. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor cyfrifol yn y Senedd, benodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae gan y Comisiynydd 'ddyletswydd gyffredinol' i fynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy weithredu fel gwarchodwr gallu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ac annog cyrff cyhoeddus i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt; a

- monitro ac asesu cyflawniad yr amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus.

Bydd y Comisiynydd yn ei swydd am gyfnod o 7 mlynedd. Sophie Howe oedd y Comisiynydd rhwng 2016 a 2023, ac fe'i dilynwyd gan Derek Walker a ddechreuodd ei swydd ar 1 Mawrth 2023.

Mae gan y Comisiynydd nifer o rolau, a gall ymgymryd â nifer o gamau gweithredu, yn cynnwys:

- Cynghori, annog a hyrwyddo: Gall y Comisiynydd roi cyngor i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd, a'u hannog i gydweithio â'i gilydd ac eraill, ac i gymhwyso arfer gorau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

- Ymchwil: Gall y Comisiynydd wneud gwaith ymchwil, er enghraifft i'r nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

- Cynnal adolygiadau: Gall y Comisiynydd gynnal adolygiad o sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r Ddeddf, a sut maen nhw'n ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau.

- Gwneud argymhellion: Gall y Comisiynydd wneud argymhellion i gorff cyhoeddus ynglŷn â'r camau y mae wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i bennu ac yna i gyflawni ei amcanion llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn yr argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd.

- Llunio adroddiad cenedlaethau'r dyfodol: Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad cenedlaethau'r dyfodol o fewn y cyfnod o 12 mis

cyn etholiad y Senedd. Rhaid iddo nodi asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i bennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae dau adroddiad cenedlaethau'r dyfodol wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn, y cyntaf yn 2020 a'r ail yn 2025.

- Sefydlu Panel Cynghori: Cefnogir y Comisiynydd gan banel sy'n rhoi cyngor ar arfer eu swyddogaethau. Mae'r Panel yn cynnwys Comisiynwyr eraill Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru, cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru, TUC Cymru a busnesau Cymru. Caiff y Comisiynydd wahodd eraill i fod yn bresennol a chaiff Gweinidogion Cymru benodi aelodau newydd.

Pŵer cryfaf y Comisiynydd yw'r pŵer i gynnal adolygiad i'r graddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion (a elwir yn 'adolygiad adran 20').

Cynhaliodd y Comisiynydd cyntaf ddau adolygiad adran 20:

- Caffael llesiant yng Nghymru (2020), a drafododd i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau caffael gan gyrff cyhoeddus; a
- Llywodraeth addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (2022), a drafododd sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Ddeddf.

Dywedodd y Comisiynydd presennol wrth Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Chweched Senedd ym mis Chwefror 2026 ei fod yn bwriadu cyhoeddi'r adolygiad adran 20 nesaf ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai, ac yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu newydd.

# 6. Archwilydd Cyffredinol Cymru

O dan y Ddeddf, caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus i asesu:

> *...i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth;*
>
> *a. gosod amcanion llesiant, a*
>
> *b. cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.*

Yn ogystal, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio pob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ar yr archwiliadau o fewn y cyfnod 12 mis cyn etholiad Senedd. Mae dau adroddiad o'r fath wedi'u llunio hyd yn hyn, y cyntaf yn 2020 a'r ail yn 2025.

Wrth gynnal archwiliad, rhaid i'r Archwilydd ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad ac argymhellion a wneir i'r corff gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ganlyniad i'r tebygrwydd a'r cysylltiadau rhwng eu rolau, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.